OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 273 (Cy.36)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - -	*6 Chwefror 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Chwefror 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 43(4B)(b), 44(9), 143(1) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2010.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008(**3**) yn unol â pharagraffau (2) i (5).

(2) Yn erthygl 5(a) yn lle "hyd a chan gynnwys 31 Mawrth 2012, mai £6,500 neu lai yw gwerth ardrethol yr hereditament, a £5,000 neu lai ar ôl y dyddiad hwnnw" rhodder "o 1 Ebrill 2010 ymlaen, mai £7,800 neu lai yw gwerth ardrethol yr hereditament".

(3) Yn erthygl 7(ch) yn lle "£6,500" rhodder "£7,800" ac yn lle "£9,000" rhodder "£11,000 am y cyfnod o 1 Ebrill 2010 hyd 31 Mawrth 2012".

(4) Yn erthygl 11(a) yn lle "£2,000" rhodder "£2,400".

(5) Yn erthygl 11(b) yn lle "£2,000" rhodder "£2,400".

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) Breiniwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.
(**3**) O.S. 2008/2770 (Cy.240).